# Nodyn o’r cyfarfod

| | |
|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod:** | Fforwm Mynediad Cenedlaethol Cymru – cyfarfod 73 |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 22 Tachwedd 2022 |
| **Amser y cyfarfod:** | **10:30 – 13:00 (ar-lein drwy Teams)** |
| **Yn bresennol:** | Geraint Davies (Cadeirydd), Rosie Plummer (aelod o Fwrdd CNC), Chris Mills (Afonydd Cymru), Helen Donnan (BHS), Phil Stone (CW), Charles de Winton (CLA), Adrian Walls (CSS Cymru), Gwenda Owen (Cycling UK), David Scott Ashworth (Ystadau'r Weinyddiaeth Amddiffyn), John Cuthbertson (Disabled Ramblers), Evans (Ymddiriedolaeth Cwm Elan), Bernard Griffiths (FUW), Dave Waterman (LARA), Rachel Lewis-Davies (NFU), Ian Mabberley (Fforymau Mynediad Lleol), Jonathan Hughes (Ymddiriedolaeth Genedlaethol), Beverley Penney (OSS), Rebecca Brough (Ramblers Cymru), Anthony Richards (Parciau Cenedlaethol Cymru), Steve Rayner (WATO), Mathew Williams (WSA), Sarah Smith (LlC), Simon Pickering (LlC), Carys Drew (Ysgrifenyddiaeth CNC), Kate Jury (Ramblers GB), Eifion Jones (CNC), Rhodri Hewitt (CNC), Jont Bulbeck (CNC), Delyth Davies (Cyfieithydd), |
| **Ymddiheuriadau:** | Ruth Rourke (IPROW, Dirprwy Gadeirydd), Eben Muse (BMC) Steven Morgan (Chwaraeon Cymru) a Paula Brunt (Disabled Ramblers), Tony Rooney (Dirprwy Gynrychiolydd Cenedlaethol LAFs Cymru |
| **Sylwedyddion** | Eifion Jones (Cyngor Ceredigion), Steve Jenkinson (Kennel Club), Kate Ashbrook (OSS), Angela Charlton (Ramblers Cymru), Kieron Foster (Cycling UK), Catrin Davies (Cyngor Gwynedd), Liza Tomos (CNC), Richard Thomas (CNC), Dave MacCallum (CNC), Peter White (Cadeirydd Fforwm Mynediad Lleol Ceredigion), Alison Roberts (CNC), Sarah Tindal (CNC) |

| **Rhif Eitem:** | Eitem |
|---|---|
| **1.** | **Croeso ac Ymddiheuriadau**<br><br>Cyflwynodd y Cadeirydd ei hun cyn croesawu pawb i'r cyfarfod ar-lein. Darparwyd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd trwy Teams, ond nid oedd rhai o'r |

mynychwyr yn gallu cyrchu'r system hon, felly parhaodd y Cadeirydd yn Saesneg - gan wahodd unrhyw un a oedd eisiau cyfrannu'n Gymraeg i wneud hynny. Nodwyd ymddiheuriadau a threfniadau ymarferol. Cafodd sylwedyddion eu croesawu a'u hatgoffa i arsylwi yn hytrach na chymryd rhan yn y cyfarfod. Roedd y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben crynhoi'r cyfarfod ac yna byddai'n cael ei ddileu. Nodyn cryno yn hytrach na chofnod gair am air yw cofnodion y cyfarfod.

2.

## Camau gweithredu a materion sy'n codi

**Cyfarfod â'r Dirprwy Weinidog**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd y cyfarfod arfaethedig gyda'r Dirprwy Weinidog wedi digwydd a bod y portffolio Gweinidogion wedi newid ers hynny. Gweinidog newydd, Lesley Griffiths AS, y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, sydd bellach yn gyfrifol am faterion mynediad. Yn dilyn y newid hwn o bortffolios Gweinidogol, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi rhoi briff gynhwysfawr i'r Gweinidog newydd ar faterion mynediad gan gynnwys mynediad at ddŵr ac ymrwymiad blaenorol y Dirprwy Weinidog i gyfarfod â Chadeirydd NAFW i drafod y materion hyn. Mae disgwyl ymateb yn fuan.

3.

## Pwy sydd â hawl tramwy cyhoeddus? Rhannu casgliadau ymchwil Y Cerddwyr a thrafodaeth ar eu ffocws ar gyfer y blynyddoedd i ddod

Mae Kate Jury, Rheolwr Prosiect (Paths and Access Vision), yn gweithio ar brosiect 'Ramblers GB' i weld lle allan nhw ganolbwyntio eu gwaith mewn perthynas â'r rhwydwaith llwybrau. Rhoddodd Kate drosolwg o'r ymchwil mae'r Ramblers wedi'i gomisiynu gyda New Economics Foundation ac Astun Technology dros y flwyddyn ddiwethaf yn edrych ar ddatblygu tystiolaeth am y rhwydwaith llwybrau; casglu a dadansoddi data i lywio gwaith Ramblers a chefnogi'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a phobl i ddadlau dros lwybrau. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn profi cefn gwlad yng Nghymru a Lloegr trwy ddefnyddio'r llwybrau, ac mae Ramblers yn gwneud llawer iawn o waith i ddiogelu, ehangu a gwella'r rhwydwaith llwybrau drwy filoedd o wirfoddolwyr llwybrau ar lawr gwlad, gweithredu cyfreithiol a gwaith achos, cyngor ac ymgyrchoedd cyhoeddus a phrosiectau allweddol e.e. prosiect 'Llwybrau i Lesiant' a mynediad i bawb. Trwy gael gweledigaeth a strategaeth unedig, dylai hyn helpu'r Ramblers i gyflwyno'r achos i'r llywodraeth a chyllidwyr a helpu i ymgysylltu a gwella integreiddio'n fewnol a dod o hyd i synergedd ar draws y sector.

Dywedodd Kate mai'r elfen gyntaf oedd datblygu tystiolaeth a symud i fod yn fwy seiliedig ar ddata. Nid yw'r ymchwil wedi'i rhyddhau eto, ond rhannodd rai o'r prif uchafbwyntiau ac ambell stori.

Mae'r ymchwil yn edrych ar werth hawliau tramwy cyhoeddus i bobl a llefydd, faint o'r rhwydwaith sydd o fewn 10 munud i gartrefi pobl, sut siâp sydd ar y

rhwydwaith (pa mor wyrdd ydyw, pa mor dda yw'r cysylltiadau), tystiolaeth sy'n dangos bod annhegwch ynglŷn ag amddifadedd ac ethnigrwydd, mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Dealltwriaeth ddiddorol am pa mor bwysig yw 'gwyrddni' rhwydwaith, a ble mae wedi'i leoli ac i ba raddau y bydd pobl am ei ddefnyddio. Hefyd, edrychwyd ar anghydraddoldebau iechyd a darpariaeth y rhwydwaith, ac oedran y stoc dai mewn perthynas â darpariaeth rhwydwaith, gan nodi bod gwahaniaethau yn y ddarpariaeth o'r adeg pan adeiladwyd tai. Mae gwaith yn parhau gydag ail adroddiad ymchwil ar y gweill eleni, sydd hefyd yn edrych ar gysylltiad â thir mynediad agored.

Mae Ramblers wedi datblygu ffordd o edrych ar y materion a'r meysydd i ganolbwyntio arnyn nhw:

- Darpariaeth – anghydraddoldeb o safbwynt lleoliad y rhwydweithiau
- Ansawdd – rhwystrau ar rwydwaith sy'n ei wneud yn anhygyrch a chyflwr sy'n effeithio ar brofiad cyffredinol
- Gwybodaeth – diffyg gwybodaeth i ddod o hyd i'r rhwydwaith a'i fwynhau (pa wybodaeth a gesglir gan sefydliadau a lle mae'n helpu'r cyhoedd i wneud dewisiadau gwybodus)

Nododd Kate y gwelliannau sydd eu hangen yn y meysydd hyn, gan nodi nad yw'r rhwydwaith llwybrau yn cyrraedd ei lawn botensial ar hyn o bryd a bod pobl yn colli allan ar fanteision cerdded ym myd natur.

Rhannodd Kate sut mae'r Ramblers bellach yn fframio gwaith o dan 5 colofn allweddol i sicrhau'r effaith fwyaf:

- Diogelu – gorffennol, presennol, a dyfodol, dwyn pobl i gyfrif, dathlu pwysigrwydd hawliau tramwy cyhoeddus a diogelu llwybrau yn gyfreithiol
- Gwella – gwella cyflwr a chael gwared ar rwystrau diangen ar y rhwydwaith presennol
- Ehangu – lleihau datgysylltiadau, sicrhau cysylltedd ar gyfer pobl a llefydd, deall lle mae angen dulliau wedi'u targedu
- Hyrwyddo – cefnogi gwybodaeth i sicrhau bod cymaint â phosibl o gyfleoedd a buddion i bobl
- Hyrwyddwr – gwerth hynny a dadlau dros lwybrau, defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth i gefnogi gwaith

Nod y prosiect oedd llunio tystiolaeth ar hawliau tramwy cyhoeddus a meddwl sut y gellir defnyddio hyn i gefnogi'r Ramblers fel sefydliad a helpu mwy o bobl gael mynediad i gefn gwlad.

Daeth Kate â'i chyflwyniad i ben drwy atgegu'r ffaith nad yw'r adroddiad ymchwil wedi'i ryddhau eto, ac y bydd yn ymddangos yn ystod gwanwyn 2023 gyda phwyslais ar lwybrau wedi hynny. Diolchodd i'r Fforwm am gyfle i roi cyflwyniad, ac estynnodd wahoddiad i'r aelodau i gysylltu â hi er mwyn dysgu am waith sefydliadau eraill, siarad mwy ac ystyried cyfleoedd i gydweithio. Kate.jury@ramblers.org.uk

**Pwyntiau trafod:**

- Adborth bod yr adroddiad a'r wybodaeth yn swnio'n ddefnyddiol iawn a'i bod hi'n fuddiol cael tystiolaeth i gefnogi ymarferwyr mynediad

- Gobaith Ramblers yw rhyddhau'r adroddiad ddechrau'r gwanwyn 2023, gall Rebecca Brough roi diweddariadau i'r Fforwm.
- Mae'n bwysig bod canlyniadau prosiectau yn gwahaniaethu rhwng Cymru a Lloegr fel gwledydd gwahanol gan nodi bod mynediad yn fater datganoledig. Yng Nghymru, mae rhanddeiliaid wedi bod yn rhan o broses hir o ddiwygio mynediad, gwahaniaethau yng nghynllun ffermio cynaliadwy a demograffeg gymdeithasol wahanol.
- Mae'r prosiect wedi bod yn gweithio ar draws y tair gwlad ym Mhrydain, ond bydd yn gwahanu i wledydd unigol er mwyn dilyn dull a dargedir wrth barhau gyda throsolwg Prydain gyfan a 'llinyn aur' gydol y strategaeth. Mae'r gymdeithas wedi bod yn gweithio gyda Ramblers Cymru i ddeall sut mae'r dystiolaeth yn berthnasol yng Nghymru, a sut i gael strategaeth unedig yn ogystal â deall y gwahaniaethau, deddfwriaeth, ysgogiadau a chyfleoedd ac amseru'r rhain.
- Bu'r gwaith ymchwil hwn yn ystyried data meintiol ar leoliad y rhwydwaith mewn perthynas â phobl a lleoedd a dadansoddiad o hyn, ac mae hon yn un golofn dystiolaeth sy'n cefnogi'r gwaith hwn. O ran cwestiwn diogelwch defnyddwyr y rhwydwaith ac yswiriant, roedd Kate yn cydnabod bod hawliau a chyfrifoldebau pobl pan maen nhw allan yn cerdded yn faes pwysig, ac mae hyn wedi'i gynnwys yng ngwaith ehangach Ramblers - gofynnodd am sylwadau ar bwyntiau pwysig i'w nodi fel rhan o hyn.
- Mae yna argymhelliad allweddol mewn gwaith ehangach ac maent yn edrych ar addysg, a helpu pobl i fod yn ymwybodol o'u hawliau a'u cyfrifoldebau - mae Ramblers wrthi'n ystyried sut y gallai hyn edrych. Nododd Kate fod Ramblers yn dda am siarad yn fewnol â gwirfoddolwyr ac aelodau, ond bod angen gwella'n allanol felly mae angen ystyried hyn mewn partneriaeth â phobl sydd â phrofiad a dealltwriaeth.
- Diolchodd y Cadeirydd i Kate am gymryd yr amser i rannu'r cyflwyniad diddorol, edrychwch ymlaen at weld bydd pethau'n datblygu a chynigiwyd trafodaeth bellach ar faterion eraill a nodir.

**Cam gweithredu: 73.1** Carys i rannu sleidiau cyflwyno.

---

## Creu Coetir: cyflwyno'r cynlluniau newydd yng Nghymru

Eifion Jones, Cynghorydd Arbenigol Creu Coetir a Rhodri Hewitt, Swyddog Cyswllt Coedwig Genedlaethol, CNC

**4.** Cyflwynodd Rhodri fanteision coed gan gynnwys cynyddu bioamrywiaeth, lliniaru llygredd aer a llifogydd, lleihau llygredd sŵn, gwella ansawdd y dŵr yn ogystal â manteision ymweld â choetir i lesiant, a manylodd ar rai o'r cyfleoedd hamdden mewn coetir.

Rhoddodd Eifion drosolwg o'r cynlluniau ariannu newydd. Mae cynllun blaenorol Creu Coetir Glastir wedi'i rannu'n dri chynllun newydd:

- Grant bach – ardaloedd cymharol fach risg isel ar gyfer creu coetiroedd
- Cynllun plannu – yn creu cynllun creu coetir wedi'i ddilysu sy'n ddilys am 5 mlynedd
- Grant creu coetir ar wahân (gwneud cais ar ôl y cynllun plannu)

Nododd Eifion, fel gydag unrhyw gynllun, fod yna gyfaddawd a chydbwysedd rhwng cymhlethdod a chyfleustra. Cymharodd Grant Bach - Creu Coetir a'r Grant Creu Coetir, gan ddangos lle'r oedd elfennau'n gorgyffwrdd, beth oedd y gwahaniaethau a'r hyn y gellir ei ariannu.

Lansiwyd y Grantiau Bach ddiwedd mis Awst, gyda'r cyfraddau ariannu yn cynnwys sefydlu coetir, costau e.e. ffensys a gatiau a chyfraddau cynnal a chadw.
Mae MapData Cymru yn nodi'r ardaloedd sy'n addas ar gyfer y Grant Bach. Mae tua 50% o Gymru wedi'i heithrio lle mae unrhyw sensitifrwydd. Rhoddodd Eifion drosolwg o'r broses a'r amseru (gan nodi'r dyhead i gwblhau proses ymgeisio o fewn 28 diwrnod a phlannu coed o fewn 12 mis). Rhaid i'r cynllun fod yn gyfarwyddol er mwyn cydymffurfio â Safon Coedwigaeth y DU (UKFS) a chael coetir sy'n cyflawni ar draws yr holl ganlyniadau a geisir. Mae UKFS yn cynnwys gofynion ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus a rhannodd Eifion yr amodau sy'n rhan o gontract Grantiau Bach a fyddai'n cael eu harchwilio ar gyfer Taliadau Gwledig Cymru ar ôl plannu'r coed.

Mae gan y Cynllun Cynllunio Creu Coetir a'r Grant Creu Coetir, (y cyfeirir ato fel y 'prif gynllun') fwy o gamau yn y broses ymgeisio. Roedd cyfraniad CNC wedi symud i ddechrau'r broses (o'i gymharu â chynllun Glastir) er mwyn gallu cynnwys sensitifrwydd o ddechrau'r broses gynllunio.

Mae'r Map Cyfleoedd Coetir (ar MapData Cymru) yn nodi'r holl gyfleoedd, sensitifrwydd a chyfyngiadau i gynllunwyr coetiroedd cofrestredig eu dehongli er mwyn datblygu Cynllun Creu Coetir. Mae cyfraddau talu yn cynnwys mwy o opsiynau ar gyfer gwaith cyfalaf o'i gymharu â'r cynllun grantiau bach. Nododd Eifion sut mae angen ystyried hawliau tramwy cyhoeddus. Mae'r cynllun Creu Coetir yn ddilys am 5 mlynedd.

Mae cynllun newydd arfaethedig Coedwig Genedlaethol Cymru yn cael ei lansio gyda rhai safleoedd enghreifftiol, ac mae'r cynllun yn cael ei gwblhau cyn cyhoeddi'r broses ymgeisio. Yr uchelgais yw ymestyn hyd a lled Cymru gan roi cyfle drwy blannu, tyfu, diogelu coed, lliniaru newid hinsawdd, atal a gwrthdroi dirywiad mewn bioamrywiaeth, cefnogi iechyd a lles a chefnogi cyfle masnachol.
Mae 14 o safleoedd enghreifftiol wedi'u lansio a bellach yn goedwig genedlaethol yn swyddogol - maen nhw'n ymestyn ar hyd a lled Cymru, yn dilyn llawer o ystad goetiroedd Llywodraeth Cymru, a'r gobaith yw ychwanegu atynt i greu rhwydwaith cysylltiedig ledled y wlad.
Roedd gan y Prif Weinidog weledigaeth bod cenedlaethau'r dyfodol yn cael cyfle i gerdded o un pen o Gymru i'r llall, heb adael coedwig genedlaethol naturiol unwaith - dyw hyn ddim yn golygu gorchudd coed drwyddi draw, gan fod coetir yn gallu cynnwys mannau agored. Y syniad yw cael llwybr sy'n cael ei hybu a'i hyrwyddo, y gall unrhyw un ei ddefnyddio o bob cwr o'r wlad. Rhannodd Rhodri rai ystyriaethau hygyrchedd megis safonau, cynnal a chadw a chysylltedd â llwybrau eraill sy’n cael eu hyrwyddo, e.e. Llwybr Arfordir Cymru a'r Llwybrau Cenedlaethol gan bwysleisio y byddai cyfleoedd lleol ar gyfer hamdden a chysylltiad pobl â'r Goedwig Genedlaethol yn bwysig iawn ochr yn ochr â'r nodau eraill a geisir.

Darparwyd manylion am y chwe maen prawf a nodir ar gyfer Coedwig Genedlaethol; y meini prawf hanfodol yw

- **Ansawdd da**
- **Coetiroedd hygyrch a hwylus i bobl**
- **Cynnwys cymunedau**

Tri maen prawf mynediad hynod ddymunol:

- **Coetiroedd cysylltiedig**
- **Coetiroedd a choed amlbwrpas deinamig**
- **Coetiroedd sy'n dangos dysgu, ymchwil ac arloesi**

Mae cynllun ariannu pellach wedi'i greu i gefnogi hyn; Mae'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) ar gael i wella'r coetir presennol i gyrraedd y safon sydd ei hangen i gael ei achredu gan y Goedwig Genedlaethol.

**Pwyntiau trafod:**

- Mae cynrychiolwyr Gweithgor Rheoli Hawliau Tramwy Cymru wedi bod yn rhan o'r broses. Nodwyd fod problemau gyda chynlluniau blaenorol yn y gorffennol. Mae gan goetiroedd ffensys ac mae'n bwysig bod llwybrau sy'n cael eu croesi gan ffensys yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Nododd fod lwfansau ar gyfer dodrefn pren a dodrefn metel yn y cynllun newydd. Roedd yna bryder bod dodrefn pren yn gallu dirywio o fewn 10 mlynedd ond gall cynlluniau bara am 30-50 mlynedd. Roedd yna gwestiwn a fydd dodrefn newydd yn lle hen rai yn cael eu hariannu o dan y cynllun neu gefnogaeth i dirfeddianwyr am hyd y cynllun er mwyn parhau i gynnal a chadw'r strwythurau hyn? Roedd yna bryder am sgileffeithiau pe bai dodrefn yn dirywio ac achosi niwsans ac angen camau gorfodi gan awdurdod lleol ac a fyddai awdurdod yn ceisio gosod dodrefn metel i osgoi hyn.
- Nododd fod Cymdeithas Cyfarwyddwyr yr Amgylchedd, Economi, Cynllunio a Thrafnidiaeth (ADEPT) wedi dechrau llawer o waith i edrych ar blastig wedi'i ailgylchu, ac er bod costau prynu cychwynnol gryn dipyn yn fwy, mae ganddyn nhw oes o 20-30 mlynedd.
- Nododd Eifion fod gatiau metel ond ar gael drwy grant creu coetir y prif gynllun. Mae giât pren yn waddol y polisi amaethyddol cyffredin a chyfraith yr UE a ddargedwir, felly gobeithio bod modd newid hyn. Mae'r awgrym am blastig wedi'i ailgylchu yn swnio'n dda gan ei fod yn ddeunydd cadarn.
- Mae'r cynlluniau Creu Coetiroedd yn cynnwys cynnal a chadw am 12 mlynedd, ac os oes angen ail rownd o fuddsoddiad ar ôl 12 mlynedd, byddai'r Grant Buddsoddi mewn Coetir (TWIG) yn gallu bodloni hynny a gallai gynnwys ailosod neu uwchraddio seilwaith mynediad a rheoli coetiroedd i ategu'r hyn a ariannwyd yn flaenorol.
- Cais i gynnwys Fforymau Mynediad Lleol mewn proses ymgynghori fel rhan o broses Creu Coetir. Nododd Eifion po fwyaf yw'r cynllun, yna'r mwyaf o ymgynghori fyddai ei angen.
- Mae llwybrau amlddefnyddiwr wedi eu hamlygu mewn cynigion a chynigiodd Rhodri ymchwilio ymhellach i hyn.
- Holwyd a fu asesiad o'r effaith ariannol ar gymunedau gwledig wrth greu Coedwig Genedlaethol Cymru, wrth gymryd y gwaith cynhyrchu allan o rai mannau?

- Mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal rhywfaint o waith modelu ariannol fel rhan o Raglen Monitro a Modelu yr Amgylchedd a Materion Gwledig (ERAMMP) [Adolygiad Tystiolaeth Coedwig Genedlaethol | ERAMMP] ond nid y cwestiwn penodol a godwyd. Er mai Coedwig Genedlaetho yw'r teitl, mae'n golygu coedwig yn yr ystyr ehangaf - does dim rhaid iddo fod yn ganopi caeedig gyda stoc wedi'i eithrio. Rhaid ei ystyried fel coedwedd ehangach a fyddai'n cynnwys gwrychoedd, parcdir, amaeth-goedwigaeth a lleiniau cysgodi, mae'n ymwneud â chysylltedd y coed hynny yn hytrach na choetir canopi caeedig. Nid oes angen cyfaddawd o reidrwydd rhwng Coedwig Genedlaethol a chynhyrchiant amaethyddol, fe allai gyflawni'r ddau. Os caiff coed eu plannu'n iawn, gallant ategu busnes fferm a gwella cynhyrchiant, gyda llwybrau cysylltiedig gobeithio, ac ychwanegu twristiaeth lle mae rheolwyr tir eisiau arallgyfeirio - dylai ategu yn hytrach na chyfaddawdu.
- Mae'n bwysig cael cyswllt ag ymgeiswyr, CNC a swyddogion hawliau tramwy yn y cam ymgeisio, mae'r cynllun yn cynnwys gofyniad i gael sêl bendith awdurdod lleol os yw'n effeithio ar ardal hawliau tramwy cyhoeddus presennol. Lle bo'n briodol, efallai y bydd manteision cynnwys llwybrau caniataol hefyd - rhywbeth y gellir ei godi gyda'r cynllunydd coetir cofrestredig. Yn y Cynllun Grantiau Bach, byddai'r trafodaethau hyn yn digwydd rhwng tirfeddiannwr ac awdurdod lleol yn uniongyrchol.
- Nid oedd modd plannu ar lwybrau sefydledig ar dir mynediad Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, a rhaid i unrhyw waith plannu o'u cwmpas fod yn addas.
- Mae cofrestr yn dangos lleoliad ceisiadau llwyddiannus ar MapData Cymru - ansicrwydd faint mae'n cymryd i'r rhain ymddangos ar y safle ar ôl llofnodi cytundeb.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am gyflwyniad diddorol gan edrych ymlaen at weld sut mae'r cynlluniau'n datblygu.

## Cynllun Corfforaethol CNC – ein hamcanion a'n camau llesiant i'w cymryd - rhannu'r cynllun drafft cyfredol a chyfleoedd i gyfrannu

Aeth y Cadeirydd ymlaen i groesawu'r Cadeirydd Sue Ginley, Prif Gynghorydd Arbenigol, Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad gan nodi llawer o waith hyd yma ar ddatblygu Cynllun Corfforaethol CNC.

**5.** Dywedodd Sue fod CNC bellach yn y broses o gwblhau'r gwaith o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2023-2027 yn dilyn misoedd lawer o ymgysylltu. Y bwriad yw datblygu'r testun erbyn mis Mawrth 2023 cyn lansio'r cynllun ym mis Mehefin 2023.

Mae CNC yn gofyn i Fforymau rhanddeiliaid gyfrannu ac ymateb i adborth trwy arolwg byr. Rhoddodd Sue grynodeb o'r mathau o gwestiynau fyddai'n cael eu gofyn.

Mewn trafodaeth gyda Bwrdd CNC, rhanddeiliaid eraill, cyfarwyddwyr a staff CNC, pwysleisiodd Sue fod cyfiawnder cymdeithasol a chynnwys pobl yn elfen hollbwysig o'r Cynllun Corfforaethol. Bu rhywfaint o drafod a ddylai hyn fod yn

amcan ar wahân am bobl a chyfiawnder cymdeithasol neu a ddylai dreiddio drwy'r Cynllun Corfforaethol cyfan. Penderfyniad y Bwrdd oedd y dylai dreiddio drwy'r cynllun cyfan a gofynnodd Sue i bobl gofio am gyfiawnder cymdeithasol, gweithio gyda phobl a chydraddoldeb fel sail i bopeth sy'n cael ei gynnig.

Rhoddodd Sue gyflwyniad byr am y broses o ddatblygu'r Cynllun Corfforaethol, materion llywodraethu a'r broses gymeradwyo. Nodwyd y cyd-destun a'r mathau o bethau fyddai'n rhan o'r Cynllun megis y cyd-destun rhyngwladol, yr amcanion sefydliadol gan nodi mai Amcanion Llesiant CNC yw'r rhain. Cyflwynodd y Weledigaeth a'r genhadaeth a'r tri amcan lefel uchel a rhywfaint o fanylion am sut fyddai CNC yn mynd ati i gyflawni'r rhain:

- Bod natur yn adfer
- Bod natur a chymunedau'n garbon isel ac yn gallu gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd
- Bod llygredd yn bresennol

**Pwyntiau trafod**

- Wrth ymateb i gwestiwn am yr amser byr sydd ar gael i ymateb i'r cynllun strategol hollbwysig hwn, nododd Sue mai rhan o broses yw'r cam hwn. Cynhaliwyd digwyddiad ymgysylltu blaenorol yn gynharach yn y flwyddyn ac mae'r Cynllun wedi adeiladu ar hynny. Y cam hwn yw helpu i ddatblygu'r cynllun drafft.
- Diolchodd y Cadeirydd i'r tîm am eu holl waith caled yn datblygu'r cynllun, gan edrych ymlaen at dderbyn y sleidiau a'r holiadur.

**Cam gweithredu 73.2:** Carys i ddosbarthu sleidiau a holiadur arolwg i aelodau'r Fforwm ymateb erbyn 6 Rhagfyr.

## Bodloni canlyniadau crynodeb adborth ac ymateb ysgrifenyddiaeth

**6.** Dosbarthodd Carys Drew holiadur adborth ar gyfer aelodau wedi'r cyfarfod diwethaf. Dywedodd fod croeso i'r aelodau roi adborth iddi unrhyw bryd, ac mai ymarfer adborth ffurfiol oedd hwn i gasglu barn am fformat y cyfarfod. Diolchodd Carys i'r aelodau am ymateb, a rhoddodd drosolwg o'r pwyntiau allweddol gan nodi'r camau arfaethedig o ran rheoli cyfarfodydd yn y dyfodol.

## Cyfraniadau ysgrifenedig

Dosbarthwyd copïau o'r cyfraniadau ysgrifenedig.

**7.**

- Nodwyd y diddordeb yng nghyfraniad Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS), a'r ffaith eu bod am weld Heddlu'r Gogledd yn cyfrannu at ymgyrch 'Dead Slow' y Gymdeithas - ac a fyddai modd annog mwy o hyn mewn rhannau eraill o Gymru, e.e. Parciau Cenedlaethol yn enwedig lle mae ymwelwyr yn llai cyfarwydd â phobl ar gefn ceffylau yng nghefn gwlad. Dywedodd Helen Donnan mai'r gobaith yw y bydd y dull hwn yn hidlo trwy Gymru gydag Alan

Hiscot, Swyddog Diogelwch BHS yn gweithio'n agos gyda Diogelwch y Ffyrdd Cymru a gwaith ar y gweill y flwyddyn nesaf i dynnu sylw at ddiogelwch ar y ffyrdd i bobl ar gefn ceffylau gydag arwyddion tebyg i ymgyrch 'Think Bike'.

- Tynnodd Rebecca Brough sylw at y gwahaniaethau mewn pwyslais gwaith yng ngwledydd Prydain, gan nodi bod ymgyrch 'Right to Roam' yn Lloegr, a bod Ramblers Cymru wedi gofyn am beidio â chyflwyno'r ymgyrch honno yng Nghymru, o gofio'r sefyllfa wahanol yng Nghymru gyda Diwygio Mynediad (Access Reform) - nid rhywbeth y mae Ramblers yn ystyried ei wthio yng Nghymru ond nododd y gall aelodau ei weld yn codi ar lefel Prydain.
- Mewn perthynas â phwyntiau a wnaed yng nghyfraniadau ysgrifenedig Ramblers am y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, eglurodd Rebecca fod Ramblers yn dal yn awyddus i weld cydymffurfio ag efennau o'r ddeddfwriaeth mynediad bresennol, fel rhan o gymhwysedd neu daliadau'r cynllun newydd megis trawsgydymffurfio a'r Safonau Isafswm Cenedlaethol. Nodwyd bod y cam ymgynghori diweddaraf wedi dod i ben a bod y Camau Cyffredinol ar gyfer mynediad yn ddewisol.
- Cyfeiriwyd at enghreifftiau o heriau gwaith a chyfreithiol gyda Network Rail, sy'n bwysig ac yn bryderus os yw hyn yn batrwm. Nododd Rebecca eu bod yn gweld dull cyffredinol yn Lloegr a Chymru, o ran gwaith achos yn ymwneud â symud risg i ffwrdd o'r rheilffyrdd. Cwestiwn i aelodau eraill y fforwm oedd a ydyn nhw'n gweld y profiad hwn - effaith enfawr o bosibl. Gobeithio y bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd sylw.
- Roedd Adrian Walls wedi tynnu sylw at y ffaith bod gwaith wedi'i wneud i ddod i gytundeb newydd gydag awdurdodau lleol a Network Rail, gyda Gweinidog y DU yn cyfarwyddo awdurdodau lleol i fodloni disgwyliadau Network Rail - mae'n cael ei alluogi'n fwy gan y Llywodraeth, gan nad yw awdurdodau lleol mewn cymaint o sefyllfa i sefyll yn erbyn hyn.
- Rhoddodd Carys grynodeb o gyfraniad ysgrifenedig CNC gan nodi'r gwaith sy'n cael ei wneud ar y Cod Cefn Gwlad yng nghyd-destun cwestiynau cynharach am hamdden cyfrifol. Bydd y Fforwm yn cael eu diweddaru am hyn, ond mae croeso i'r aelodau rannu barn am agweddau hyrwyddo'r Cod trwy gysylltu â Dr Emma Edwards-Jones, prif gyswllt Eryri Bywiol: emma@snowdonia-active.com
- Mewn ymateb i gwestiwn a fyddai Cynllun Hamdden CNC yn cynnwys awgrymiadau gan gynrychiolwyr y sector awyr agored, y gallai tir Llywodraeth Cymru gael ei ddefnyddio i brofi rhai o'r cynigion wrth ddiwygio mynediad a dangos arferion da. Cadarnhaodd Jont Bulbeck fod rhai trafodaethau wedi'u cynnal gyda LlC ac y byddai cyfleoedd yn cael eu hystyried, yn amodol ar amserlen resymol ac addasrwydd, ac y bydd dichonoldeb dulliau treialu yn cael eu trafod gyda'r tîm sy'n arwain datblygiad y Cynllun.
- Nododd Simon Pickering fod llawer o'r diweddariad wedi'i nodi, gan gynnwys ar Ddiwygio Mynediad. Oherwydd diffyg slot deddfwriaethol yn nhymor y Senedd hon, ategodd fod Llywodraeth Cymru yn pwysleisio ar ddiwygiadau anneddfwriaethol ar hyn o bryd e.e. gwaith y Cod Cefn Gwlad a gwaith ar wahân ar gadw cŵn ar dennyn. Roeddynt yn chwilio am, a chymryd cyfleoedd i fwrw cynigion yn eu blaenau e.e. ymgynghori ar

ddiddymu dyddiad terfyn 2026. Nododd fod arian grant yn mynd yn dda eleni.

- Dywedodd Phil Stone bod cynnydd yn nifer y bobl sydd eisiau cael mynediad at ddŵr, gyda arolwg diweddar yn dangos bod llawer o blant ysgol yn cael mynediad at ddŵr. Er hynny mae gostyngiad wedi bod yn y dŵr sydd ar gael trwy drefniant ers 2019, mae'r arwynebedd dŵr sydd ar gael wedi gostwng, ysu i barhau â'r drafodaeth.
- Nododd Simon fod y briff i'r Gweinidog Materion Gwledig sydd yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn, wedi cynnwys mynediad at ddŵr ac adroddiad mynediad y Fforwm Mynediad i'r is-grŵp dŵr. Mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda chydweithwyr y Gangen Dŵr sy'n arwain ar ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i ddechrau dynodi cyrff dŵr ar gyfer hamddena, hefyd yn fwy amlwg yn Grant Gwella Mynediad LlC er mwyn targedu mynediad at welliannau dŵr.

**8.**

## Rhagolwg a dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf

Cadarnhawyd mai 14 Mawrth 2023 (ar-lein) a 4 Gorffennaf 2023 (hybrid - yn amodol ar y cyfleuesterau sydd ar gael) fydd dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol.